# Ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb
# Polisi Caffael

Gweler Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer canllawiau manwl am sut i gwblhau'r ffurflen hon.

## Adran 1: Pwrpas a chwmpas y polisi

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Polisi Caffael |
| **Newydd neu gyfredol** | Cyfredol |
| **Perchennog** | David Meaden |
| **Swyddog(ion) sy'n cynnal yr AEG** | Andrew Jenkins<br>Ania Rolewska |
| **Beth mae'r polisi yn gobeithio ei gyflawni?** | Gwneud yn siŵr bod OGCC yn dilyn proses gystadleuol bob amser gyda'r nod o sicrhau'r cyfle gorau i gaffael nwyddau neu wasanaethau gyda gwerth am arian |
| **Sut mae'r polisi yn berthnasol i feysydd gwaith eraill?** | Cynllun Cydraddoldeb OGCC<br>Polisïau Ariannol |
| **Pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y polisi hwn?** | • Cyflenwyr<br>• Staff a defnyddwyr gwasanaeth (yn anuniongyrchol) |

## Adran 2: Asesu perthnasedd a chymesuredd

Cofiwch:

- i asesu perthnasedd, mae'n rhaid i chi ystyried tystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r holl nodweddion cydraddoldeb
- rhaid i chi gofnodi pob tystiolaeth sy'n cael ei ystyried yn adran 4 o'r ffurflen hon.

| **Cwestiwn** | **Nac ydy/ Nac oes** | **Ydy / Oes** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| A yw'r polisi yn berthnasol i amcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu a nodwyd gan OGCC? | ☐ | ☒ | Ydy - Amcan 3.5: Sicrhau bod ystyriaeth i gydraddoldeb wedi ymwreiddio ym mhrosesau penderfynu OGCC |
| A yw'r polisi yn ymwneud â swyddogaethau y mae tystiolaeth, neu weithgareddau blaenorol wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig i nodweddion penodol? | ☐ | ☒ | Nid yw tystiolaeth a gweithgarwch OGCC hyd yma wedi amlygu ym mha ffyrdd arwyddocaol y gallai ein caffael effeithio ar nodweddion penodol. |

| **Cwestiwn** | **Nac ydy/ Nac oes** | **Ydy / Oes** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| A yw’r polisi yn berthnasol i faes lle mae anghydraddoldebau hysbys, neu botensial sylweddol i leihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau? | ☐ | ☐ | Ydy – mae caffael yn faes gweithredu sy’n dod o fewn dyletswyddau penodol yng Nghymru ac mae’n cael ei gydnabod fel ffordd bwysig i hybu’r ddyletswydd gydraddoldeb. Dywed EHRC fod ‘y gofyniad i gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys i bob math o gaffael beth bynnag fo gwerth y contract.’ |
| A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai’r polisi effeithio ar: | | | |
| • driniaeth deg o bobl â nodweddion penodol | ☐ | ☒ | Rhaid i’r polisi sicrhau triniaeth gyfartal a thryloywder yn y broses gaffael |
| • bodloni anghenion pobl â nodweddion cydraddoldeb (gan gynnwys drwy ddarparu addasiadau rhesymol) | ☐ | ☒ | Rhaid i’r broses gaffael fod yn hygyrch i bobl â nodweddion ac anghenion mynediad gwahanol. Gall y broses gaffael gynnwys gwasanaethau sy’n effeithio ar hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg. Pan yn briodol, rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yn y manylebau a’r meini prawf dyfarnu. |
| • cyfranogiad pobl â nodweddion cydraddoldeb | ☐ | ☒ | Dylai’r polisi sicrhau nad oes unrhyw grŵp yn wynebu anfantais wrth gymryd rhan ym mhroses gaffael OGCC. |
| • cysylltiadau cymunedol rhwng grwpiau cydraddoldeb gwahanol | ☒ | ☐ | Nid oes tystiolaeth bendant i ddangos y gallai’r polisi effeithio ar gysylltiadau cymunedol |
| A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai’r polisi hwn ddylanwadu ar anfantais oherwydd statws economaidd-gymdeithasol pobl? | ☐ | ☒ | Gall y polisi gefnogi ymrwymiad OGCC i leihau anghydraddoldebau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol (o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol) drwy gefnogi cyflenwyr lleol pan yn briodol. |
| A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai’r polisi hwn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg neu’n effeithio ar sut mae OGCC yn trin y Gymraeg? | ☐ | ☒ | Oes, i’r graddau bod y broses gaffael yn gallu cynnwys comisiynu gwasanaethau cyfieithu neu wasanaethau sy’n rhaid eu darparu’n ddwyieithog. Rhaid i’r polisi hefyd adlewyrchu dyletswyddau OGCC o ran y broses gaffael o dan safonau’r Gymraeg. |

Os ydych yn ateb ‘ydy/oes’ i unrhyw un o’r cwestiynau hyn, ewch i [adran 3.](#)
Os bernir nad yw polisi yn berthnasol ar gyfer cynnal AEG llawn, ewch i [adran 5](#)

## Adran 3: Asesiad Llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Cofiwch:

- yn ystod y cam hwn, mae'n rhaid i chi ystyried unrhyw angen i gasglu tystiolaeth bellach - gan gynnwys drwy ymgysylltu â grwpiau a allai gael eu heffeithio gan y polisi;
- mae'n rhaid i chi gofnodi'r holl dystiolaeth sy'n llywio'r cam hwn yn adran 4 o'r ffurflen hon.

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| **Nodwedd** | **Effaith negyddol** | | | **Effaith bositif** | | | **Dim yn berthnasol** | **Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd** | **Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif** | **Effaith negyddol** | | | **Effaith bositif** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| Agweddau cyffredinol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | Mae'r polisi fel y'i haseswyd yn cynnwys gofyniad ar ddarpar gyflenwyr mewn achosion o gaffael dros £25k i ddangos bod ganddynt bolisïau cydraddoldeb boddhaol mewn perthynas â'r gwasanaethau sydd i'w darparu. | Gellir cryfhau'r polisi drwy:<br>• ychwanegu datganiad ar ddyletswyddau OGCC o ran cydraddoldeb at egwyddorion craidd y polisi ac at y templed tendro<br>• datgan bod yn rhaid i bob cyflenwr fod yn ymwybodol o ddyletswyddau cydraddoldeb OGCC a helpu OGCC i'w cyflawni<br>• ychwanegu proses syml i asesu perthnasedd caffael OGCC i gydraddoldeb; a galluogi pennu gofynion ychwanegol ar gyflenwyr yn achos caffael y bernir sy'n berthnasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Oedran | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | O ystyried natur caffael OGCC hyd yma, nid oes tystiolaeth bendant y gallai'r polisi hwn gael effaith amlwg ar y nodwedd hon. | Bydd y camau a nodwyd uchod i gryfhau effaith y polisi ar gydraddoldeb yn gyffredinol hefyd yn helpu i ganfod a chryfhau effaith caffael OGCC ar y nodwedd hon. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Anabledd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | Nid yw'r polisi'n cynnwys ymrwymiad ar hyn o bryd i wneud y broses gaffael yn hygyrch. Mae perygl na fydd y broses yn hygyrch i unigolion a all fod angen addasiadau rhesymol.<br><br>Mae OGCC yn hysbysebu cyfleoedd caffael ar GwerthwchiGymru ac ar y | Nid oes llawer y gellir ei wneud i olygu bod y broses gaffael yn fwy hygyrch. Mae fformat GwerthwchiGymru yn cyfyngu ar y cyfleoedd i hysbysebu mewn fformatau gwahanol. Hefyd, efallai na fydd yn bosibl bob amser i dderbyn ceisiadau am fformat amgen, mwy hygyrch o fewn yr amserlen arferol ar gyfer ymateb i wahoddiadau i dendro (3 wythnos) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

# Ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| | | | | | | | | wefan. Gellir gweld cyhoeddiadau ar y wefan drwy ddefnyddio’r ffwythiannau hygyrchedd sydd ar gael eisoes ar y wefan fel print bras a BrowseAloud. | Fodd bynnag, bydd y camau a nodwyd uchod i gryfhau effaith y polisi ar gydraddoldeb yn gyffredinol hefyd yn helpu i ganfod a chryfhau effaith caffael OGCC ar y nodwedd hon. | | | | | | |
| Rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | O ystyried natur caffael OGCC hyd yma, nid oes tystiolaeth bendant y gallai’r polisi hwn gael effaith amlwg ar y nodweddion hyn. | Bydd y camau a nodwyd uchod i gryfhau effaith y polisi ar gydraddoldeb yn gyffredinol hefyd yn helpu i ganfod a chryfhau effaith caffael OGCC ar y nodwedd hon. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Hil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Crefydd neu gred | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Cyfeiriadedd rhywiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Statws economaidd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | Mae’r polisi fel y’i haseswyd yn datgan eisoes y bydd OGCC yn annog cyflenwyr lleol llai i gymryd rhan.<br>Ar sail yr ychydig ymarferion caffael diwethaf, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y math o gyflenwyr mae OGCC yn eu denu’n dueddol ar y cyfan o ddod o Gymru. | Mae natur a chwmpas cyfyngedig caffael OGCC yn ei gwneud yn anodd gweld tueddiadau rhanbarthol mwy manwl a allai arwain at gyflwyno newidiadau mwy penodol i’r polisi ar hyn o bryd.<br>Fodd bynnag, dylem sicrhau ein bod yn parhau’n ymwybodol o nodweddion ein cyflenwyr ac yn monitro eu proffil o dan y polisi presennol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| gymdeithasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | Byddai’r holl gaffael yn digwydd yn unol â | Dylai’r polisi gynnwys datganiad penodol ar ddyletswyddau OGCC o dan y | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| | | | | | | | | dyletswyddau OGCC o dan safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r polisi fel y'i haseswyd yn datgan hynny'n benodol, ac nid yw ychwaith yn datgan y gellir cwblhau'r broses gaffael yn Gymraeg ac na fydd tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynwyd yn Saesneg. | Safonau yn egwyddorion craidd y polisi ac yn y templed tendro.<br><br>Dylai'r polisi ddatgan yn benodol y bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a bod OGCC yn croesawu tendrau yn Gymraeg.<br><br>Dylai'r polisi ddatgan y dylai pob caffael, yn ychwanegol at ei berthnasedd i gydraddoldeb, gael ei asesu am ei berthnasedd i'r Gymraeg – gyda gofynion ychwanegol yn cael eu pennu os yn gymwys. | | | | | | |

## Adran 4: Cofnod o dystiolaeth ac ymgysylltu

| **Ystyried y dystiolaeth gyfredol** | |
|---|---|
| **Sgrinio cydraddoldeb** | 'Canllaw'r EHRC ar gydraddoldeb mewn caffael <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/procurement_and_the_equality_duty_wales.pdf><br>Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail cytundeb perthnasol, rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:<br>• rhoi sylw dyladwy a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol<br>• rhoi sylw dyladwy a fyddai'n briodol i bennu amodau'n gysylltiedig â pherfformiad y contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.<br>Caffael: canllawiau budd i'r gymuned (Llywodraeth Cymru) |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | AEG o'r polisi caffael - Ofcom<br>AEG o'r polisi caffael - Unison |
| **Tystiolaeth ychwanegol a gasglwyd** | |
| **Sgrinio cydraddoldeb:** n/a | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
| Dull o gasglu tystiolaeth | Ymchwil ddesg (adolygu caffael o'r gorffennol) |
| Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd | • mae nifer yr ymarferion tendro a gynhelir gan OGCC bob blwyddyn yn fychan iawn (tua 1/2 y flwyddyn)<br>• mae'r caffael yn ymwneud â gwasanaethau sydd angen eu darparu i'r sefydliad yn hytrach nag i bobl<br>• ar sail yr ychydig ymarferion caffael diwethaf, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y math o gyflenwyr mae OGCC yn eu denu'n dueddol ar y cyfan o ddod o Gymru. |
| Dyddiad cwblhau | 03/11/2020 |

## Adran 5: Adroddiad canlyniadau

| | |
|---|---|
| **Cam cwblhau'r AEG** | Sgrinio ☒<br>Asesiad effaith ☒ |
| **Canlyniad gweithdrefn AEG** | Parhau â'r polisi – dim newidiadau ☐<br>Gwneud newidiadau i'r polisi ☒<br>Peidio â pharhau â'r polisi ☐ |

**Cynllun gweithredu (ar gyfer AEG llawn yn unig)**

Lle bo angen cymryd camau i liniaru lefel yr effaith negyddol neu i wneud y mwyaf o'r effaith bositif, nodwch:

| **Mater allweddol** | **Camau gweithredu i'w cymryd** | **Swyddog sy'n gyfrifol** | **Dyddiad cwblhau** |
|---|---|---|---|
| Nid oes llawer o gyfeiriadau at gydraddoldeb yn y polisi fel y'i haseswyd | Ychwanegu datganiad ar ddyletswyddau ac ymrwymiadau OGCC o ran cydraddoldeb at egwyddorion craidd y polisi ac at y ddogfen dendro | Perchennog y Polisi | Ar adeg cymeradwyo'r polisi |
| Nid yw'r polisi fel y'i haseswyd yn cynnwys cyfeiriad at y Gymraeg | Ychwanegu datganiad ar ddyletswyddau ac ymrwymiadau OGCC o ran y Gymraeg at egwyddorion craidd y polisi ac at y ddogfen dendro | Perchennog y Polisi | Ar adeg cymeradwyo'r polisi |
| | Ychwanegu datganiad y bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ac y bydd OGCC yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy gydol y broses dendro | Perchennog y Polisi | Ar adeg cymeradwyo'r polisi |
| Mae'r polisi hwn yn pennu rhai gofynion o ran cydraddoldeb yn achos caffael dros 25k, ond mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno polisïau cydraddoldeb y cyflenwr yn unig. Nid oes gofynion wedi'u pennu o ran y Gymraeg. | Ychwanegu gofyniad lle mae'n rhaid i bob cyflenwr bod yn ymwybodol o ddyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg OGCC ac ymrwymiadau a chefnogaeth i helpu OGCC i'w cyflawni. | Perchennog y Polisi | Ar adeg cymeradwyo'r polisi |
| | Ymrwymo i asesu perthnasedd unrhyw gaffael i gydraddoldeb a'r Gymraeg; ac ymrwymo i ystyried gofynion ychwanegol wrth gaffael os bernir fod hynny'n berthnasol | Perchennog y Polisi | Ar adeg cymeradwyo'r polisi |

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid nodi'n fanwl unrhyw weithgarwch caffael sy'n berthnasol i gydraddoldeb a'r Gymraeg | Ychwanegu dull syml at y polisi i nodi'r gweithgarwch caffael perthnasol | Perchennog y Polisi | Ar adeg cymeradwyo'r polisi |
| | Gwerthuso defnydd o'r dull yn yr adolygiad nesaf | Perchennog y Polisi | Yn yr adolygiad nesaf |
| **Monitro (ar gyfer AEG llawn yn unig)** | | | |
| **Amlinellwch drefniadau monitro** | Ar adeg cymeradwyo'r polisi a'r adolygiad nesaf | | |
| **Nodwch y swyddog sy'n gyfrifol** | Y Tîm Rheoli | | |
| **Anghenion cyhoeddi (ar gyfer AEG llawn yn unig)** | | | |
| A ystyriwyd bod yr effaith yn sylweddol (uchel)? | Do – yn achos agweddau cyffredinol ar y polisi a'r Gymraeg | | |

| | |
|---|---|
| Awdurdodwyd gan y TRh | ☒ |
| Dyddiad | 10/11/ 2020 |